Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Strategaeth ddrafft atal hunanladdiad a hunan-niweidio
# Yn cau 11 Mehefin 2024

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r weledigaeth hon?**
*"Bydd pobl yng Nghymru yn byw mewn cymunedau heb yr ofn a'r stigma sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niweidio – cymunedau sy'n cael eu grymuso a'u cefnogi i geisio a chynnig cymorth yn ôl yr angen."*

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☒
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 1a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1?**

Cynhaliodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru seminar ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gasglu barn ein haelodau ac mae'r ymatebion wedi'u darparu yn y ddogfen ymgynghori hon.

Rydym yn cytuno â'r weledigaeth i gryfhau cymunedau a chael gwared ar y stigma sydd ynghlwm wrth hunanladdiad a hunan-niweidio trwy gynyddu cefnogaeth gymunedol. Rydym yn cydnabod bod llawer o orgyffwrdd rhwng hunan-niweidio a hunanladdiad ond mae gwahaniaethau rhyngddynt, gan nad yw pawb sy'n hunan-niweidio yn ceisio lladd eu hunain, ac nid yw pawb sy'n ceisio lladd eu hunain yn hunan-niweidio (y tu allan i'r ymgais i ladd eu hunain).

Rydym yn cefnogi'r weledigaeth i symud at fodel cymdeithasol yn hytrach na model meddygol, trwy geisio newid safbwyntiau diwylliannol a chael gwared ar ofn a stigma, fodd bynnag awgrymwn y gellid atgyfnerthu'r weledigaeth trwy gyfeirio at atal yn benodol mewn perthynas â hunanladdiad a hunan-niweidio.

**Cwestiwn 2**
**Yn yr adran gweledigaeth strategol mae 6 egwyddor sy'n sail i'r strategaeth. Ydych chi'n cytuno mai'r egwyddorion hyn yw'r rhai cywir?**

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 2a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 2?**

Rydym yn cytuno bod y chwe egwyddor yn ymddangos yn briodol.

Fodd bynnag, gan yr awgrymir mai'r nod yw cael gwared ar y stigma sydd ynghlwm wrth hunanladdiad, yn aml y teuluoedd sy'n galaru sy'n gorfod delio â hyn tra maent yn delio â chymhlethdodau ehangach eu galar ar yr un pryd. Fel y cyfryw, rydym yn meddwl, yn ogystal â sôn am y rhai sydd â phrofiad byw, y dylid sôn am eu teuluoedd ac yn enwedig y teuluoedd mewn profedigaeth.

**Cwestiwn 3**
**Mae'r strategaeth yn nodi grwpiau blaenoriaeth a grwpiau risg uchel. Ydych chi'n cytuno bod y rhain yn gywir?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☒
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 3a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 3?**

Rydym yn cytuno â'r rheiny a restrwyd, ond credwn y dylid cynnwys plant a phobl ifanc yn y grŵp blaenoriaeth yn hytrach na'r grŵp risg uchel.

Yn y gweithdy a gynhaliwyd ar y cyd rhwng CLlLC a Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, nodwyd rhai grwpiau ychwanegol fel rhai risg uchel:

- Mae dioddefwyr trais, cam-drin rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn cael eu nodi ar y rhestr o grwpiau risg uchel, yn ogystal â'r rheiny sy'n cyflawni cam-drin domestig, ond teimlwyd fod troseddwyr sydd yn y carchar ar ôl cael eu canfod yn euog o droseddau rhyw hefyd mewn risg uwch.
- Roedd pobl a oedd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder yn canolbwyntio ar droseddwyr benywaidd a'r rheiny yn y gymuned, ond efallai ei bod yn werth ystyried a ddylai troseddwyr â phroblemau iechyd meddwl hefyd fod yn rhan o'r grŵp blaenoriaeth (gallent fod dan orchymyn neu yn y gymuned).
- Er bod dioddefwyr bwlio yn cael eu rhestru mewn grŵp risg uchel, credwn y gallai fod cyfle i gysylltu'r strategaeth â'r diffiniad o Fwlio yn y ddogfen 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer ysgolion'.

Caiff y grwpiau blaenoriaeth a risg uchel eu rhestru ar wahân ond yn aml mae unigolion yn eistedd ar draws mwy nag un o'r rhain sy'n ychwanegu at y cymhlethdod a'r angen am ddulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae chwe amcan lefel uchel yn y strategaeth. Rydym hefyd wedi awgrymu is-amcanion i gyflawni pob un. Byddwn yn cyhoeddi cynlluniau cyflawni 3-5 mlynedd a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth. Bydd y Cynllun Cyflawni yn cynnwys camau manylach i gyflawni ein hamcanion. Byddem yn hoffi gwybod:

- beth ydych chi'n ei feddwl o'r amcanion
- ydych chi'n meddwl y bydd yr is-amcanion yn cyflawni'r amcanion lefel uchel
- pa gamau, yn eich barn chi, fyddai modd eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni i gyflawni'r amcanion

Gallwch ateb cwestiynau am gynifer o'r datganiadau ag sydd o ddiddordeb i chi.

## Amcan 1

**Cwestiwn 4**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol.**
Amcan 1: Sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru, gan bwyso ar ystod o ddata, ymchwil a gwybodaeth; a datblygu seilwaith cadarn i hwyluso'r gwaith o ddadansoddi a rhannu gwybodaeth i ganolbwyntio adnoddau, llunio polisïau a sbarduno gweithredu.

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 4a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 4?**

| |
|---|
| O'n profiad cyfunol, mae casglu a rhannu data yn aml yn her rhwng partneriaid ac ymddengys bod rhai yn amharod i rannu data a gwybodaeth. Mae'r partneriaid yn dod o bob rhan o'r sector datganoledig a'r sector annatganoledig a all wneud rhannu yn fwy cymhleth ac mae'n rhan o broblem ehangach sydd o bosibl yn mynnu dull gweithredu ehangach ar draws holl adrannau a chyrff y llywodraeth. |

**Cwestiwn 4b**
Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 1.
**Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?**

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 4c**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 4b?**

| |
|---|
| Teimlwn eu bod yn eistedd yn glir o dan yr amcan ac ymddengys eu bod yn briodol i gefnogi cyflawniad y strategaeth. Gweler mwy o fanylion yn ein hymateb i 4a ynghylch y cymhlethdodau wrth gyflawni'r is-amcanion hyn. |

**Cwestiwn 4d**
**Ar y cyd â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni 3-5 mlynedd. Yn eich barn chi, pa gamau fyddai modd eu cynnwys yn y cynllun i gyflawni yn erbyn yr amcanion?**

| |
|---|
| Efallai y bydd camau gweithredu mewn perthynas ag ymchwil i'r mater gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu gan sefydliadau ymchwil a allai gynnwys defnyddio SAIL fel cronfa ddata i gynorthwyo i reoli data at ddibenion y strategaeth hon ac adeiladu'r sylfaen tystiolaeth ac ymchwil. |

**Cwestiwn 5**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol.**
Amcan 2: Cydgysylltu gweithredu ar draws y Llywodraeth ac ar draws sectorau sydd, ar y cyd, yn mynd i'r afael â sbardunau hunanladdiad, ac yn lleihau mynediad at ddulliau hunanladdiad.

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

## Amcan 2

**Cwesitwn 5a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 5?**

| |
|---|
| Dim sylwadau penodol am yr amcan lefel uchel. |

**Cwestiwn 5b**
**Awgrymwyd pedwar is-amcan i gyflawni amcan 2. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☒
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 5c**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 5b?**

Er ein bod yn cytuno â'r pedwar is-amcan, rydym yn pryderu sut y byddant yn cael eu cyflawni. Heb y cynllun cyflawni manwl a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth derfynol, teimlwn na allwn roi sylwadau pellach.

**Cwestiwn 5d**
**Ar y cyd â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni 3-5 mlynedd. Yn eich barn chi, pa gamau fyddai modd eu cynnwys yn y cynllun i gyflawni yn erbyn yr amcanion?**

Crynodeb clir o ba gyrff, grwpiau a phartneriaethau traws-sector y mae amcan 2b yn berthnasol iddynt, e.e. Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ati.

Ymddengys bod angen cydnabod beth yw capasiti gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, a'u gallu i ddarparu lleoliadau diogel / anfon i ysbyty meddwl, yn enwedig yn yr ystâd carchardai. Gallai hyn effeithio ar is-amcan 2c a'r gallu i gael dull gweithredu cyson pan mai uwchgyfeirio yw'r dewis olaf.

Gweithredu Gofal Cywir Person Cywir, sef rhaglen yr heddlu sy'n cael ei chyflwyno'n raddol gan ardaloedd heddluoedd ar hyd a lled y Deyrnas Unedig ac a fydd yn newid sut mae'r heddlu'n ymateb i alwadau iechyd meddwl. Mae'n debygol o arwain at rywfaint o effaith a gorgyffwrdd wrth gynllunio gydag is-amcan 2b a 2c a dylid ei gynnwys.

Mae diogelwch ar-lein yn parhau i fod yn bryder.  Rydym yn cydnabod yr anhawster o ran canfod a rheoli cynnwys, felly tra rydym yn cytuno y dylid ei gynnwys fel is-amcan 2d, mae gennym ddiddordeb yn y manylion yn y cynllun cyflawni ar sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni drwy bolisi a ddeddfwriaeth.

## Amcan 3

**Cwestiwn 6**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol.**
Amcan 3: Darparu camau atal, ymyrraeth a chymorth cyflym ac effeithiol i'r grwpiau hynny mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i hunanladdiad a hunan-niweidio drwy'r lleoliadau y maent yn ymwneud â nhw fwyaf.

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestwin 6a**

**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 6?**

Cytunwn mewn egwyddor â'r amcan lefel uchel hon, fodd bynnag rydym yn pryderu o ble y daw'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni hyn, ar adeg pan fo'r galw yn uwch na'r andoddau a phan fo cyllidebau dan bwysau cynyddol.

**Cwestiwn 6b**

**Awgrymwyd tri is-amcan i gyflawni amcan 3. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytun ☒
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 6c**

**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 6b?**

O ran is-amcan 3a a nodi lleoliadau a 'gwasanaethau cymunedol' allweddol, credwn y gallai fod yn werth enwi llyfrgelloedd a siopau un alwad / canolbwyntiau cymunedol penodol y cyngor. Maent yn un o'r ychydig fannau cyhoeddus y gall unrhyw un gael mynediad iddynt ac yn aml mae'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn mynd iddynt mewn cyfnod o angen neu argyfwng.

**Cwestiwn 6d**

**Ar y cyd â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni 3-5 mlynedd. Yn eich barn chi, pa gamau fyddai modd eu cynnwys yn y cynllun i gyflawni yn erbyn yr amcanion?**

Fel y soniwyd yn ein hateb i gwestiwn 6a, rydym yn pryderu am adnoddau i gyflawni o ystyried yr ystod eang o grwpiau a lleoliadau allweddol a nodwyd.

Awgrymwn fod cyfle i gysylltu amcan 1 a'r amcan hwn gyda'i gilydd, trwy ymchwil a chynlluniau peilot a ariennir i adeiladu'r sylfaen tystiolaeth o'r hyn a all weithio i atal hunan-niweidio a hunanladdiad, sy'n debygol o gael dau sylfaen tystiolaeth gwahanol iawn gan nad oes cysylltiad cynhenid rhyngddynt.

Mae arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd yn broblemau enfawr nid yn unig i bobl hŷn ond i'r genhedlaeth hon o bobl ifanc. Wrth ymgynghori â nhw, dywedodd ein haelodau bod pobl ifanc yn nodi yn rheolaidd bod mannau diogel i chwarae / cymdeithasu / dysgu yn bethau yr hoffent weld mwy ohonynt, ond mae llawer o'r darpariaethau ieuenctid a chymunedol hyn yn dal i ddiflannu. Mae'r rhain yn ymyriadau ataliol / anghlinigol / llawer rhatach sy'n seiliedig ar feithrin perthynas ond a fyddai'n mynnu cyllid ac adnoddau tra bo gwasanaethau iechyd meddwl, hunan-niweidio a hunanladdiad yn parhau i reoli'r galw mewn argyfwng a chymhlethdodau a wynebir ar hyn o bryd.

Hoffem hefyd godi ein pryder gwirioneddol ynghylch anghenion ardaloedd gwledig a theuluoedd gwledig, yn ogystal â cheiswyr lloches ac ymfudwyr o ran hygyrchedd, ac mae angen ystyried hyn yn drylwyr yn y cynllun cyflawni.

## Amcan 4

**Cwestiwn 7**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol.**
Amcan 4: Cynyddu sgiliau, ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau a allai ddod i gysylltiad â phobl sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niweidio.

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 7a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 7?**

Rydym yn cytuno fod ymwybyddiaeth y cyhoedd yn bwysig iawn i helpu i wanhau'r stigma a chynyddu dealltwriaeth.

**Cwestiwn 7b**
**Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 4. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?**

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 7c**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 7b?**

Os caiff y ddau is-amcan eu cyflawni, dychmygwn y byddant yn symud tuag at gyflawni'r amcan uchel. Er, efallai y bydd angen mwy o eglurder wrth ddefnyddio'r term 'pobl sydd mewn trallod' gan nad yw pawb sydd mewn trallod yn meddwl am hunanladdiad neu'n ystyried, neu wedi, hunan-niweidio.

**Cwestiwn 7d**
**Ar y cyd â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni 3-5 mlynedd. Yn eich barn chi, pa gamau fyddai modd eu cynnwys yn y cynllun i gyflawni yn erbyn yr amcanion?**

O ran is-amcan 4a, credwn ei bod yn bwysig bod y cynnig cyffredinol o hyfforddiant a chefnogaeth yn mynd y tu hwnt i weithwyr proffesiynol a'i fod yn cael ei gynnig i deuluoedd, ffrindiau ac aelodau o'r gymuned sydd o bosibl yn rhyngweithio mwy â'r unigolion na llywodraeth leol a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gellid cael cam gweithredu penodol yn gysylltiedig â chefnogi rhieni i allu gofyn y cwestiynau cywir a sylwi ar unrhyw arwyddion.

O ran addysg, mae angen ystyried amseriad hyfforddiant fel y gall staff gael mynediad ato. Dylid ei osod fel blaenoriaeth, hyd yn oed hyfforddiant statudol o bosibl, a darparu adnoddau a chapasiti i alluogi'r ddarpariaeth a phresenoldeb staff. Er enghraifft, nid yw addysgwyr yn arbenigwyr iechyd meddwl ac mae eu hamser yn brin. Mae hyfforddiant yn hanfodol ond nid yw mynychu hyfforddiant o reidrwydd yn paratoi rhywun yn llwyr os nad dyna eu proffesiwn neu os mai ychydig o brofiad sydd ganddyn nhw. Mae o bosibl yn ychwanegu at yr heriau iechyd meddwl i staff addysg. Mae gallu cyfeirio felly yn mynd i fod yn hanfodol, ynghyd â chapasiti yn y gwasanaethau / sectorau hynny (gweler amcan 3).

Credwn hefyd bod cyfle yma i gydnabod a gosod cynlluniau cliriach allan i dargedu aelodau 'anodd eu cyrraedd' yn y gymuned, megis ceiswyr lloches ac ymfudwyr a allai wynebu rhwystrau ieithyddol neu ddiwylliannol. Rydym hefyd o blaid amlygu'r rheiny nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus a allai fethu'r cymorth sydd ar gael o'r mannau arferol nad ydynt yn gallu neu'n debygol o fynd iddynt.

## Amcan 5

**Cwestiwn 8**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol.**
Amcan 5: Sicrhau bod ymateb priodol a thosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gynnig i bawb sy'n hunan-niweidio, sydd â meddyliau hunanladdol, neu sydd wedi dioddef profedigaeth neu gael eu heffeithio oherwydd hunanladdiad, gan hybu adferiad effeithiol a lleihau stigma.

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 8a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 8?**

Rydym yn cytuno â'r amcan lefel uchel hwn ond fel gydag amcanion blaenorol, byddem yn awgrymu bod y rhain yn dri grŵp ar wahân sy'n debygol o fod angen gwahanol fathau o gefnogaeth, gwasanaethau a thosturi.

**Cwestiwn 8b**
**Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 5. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☒
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestwin 8c**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 8b?**

Mae'r ddau is-amcan yn canolbwyntio'n fawr ar iechyd ond mae'n bosibl mai'r hyn sydd ei angen yw ongl fwy ataliol, gyda mwy o gymorth i reoli unrhyw achosion sylfaenol. Mae achosion sylfaenol megis camddefnyddio cyffuriau yn cael eu cysylltu'n aml â phenderfynyddion iechyd ehangach nad yw'r ddau is-amcan yn debygol o'u cyflawni. Nid ydym yn anghytuno â'r ddau is-amcan fel y maent wedi'u hysgrifennu, ond maent yn gyfyngedig ac mae'n bosibl y bydd angen gwybodaeth ychwanegol.

Er mwyn cyrraedd yr amcan lefel uchel, awgrymwn fod angen mwy o gydnabyddiaeth i nifer o ffactorau risg sy'n gorgyffwrdd ar gyfer afiechyd, megis tlodi, trais a thrawma cymhleth. Er bod meddygon teulu yn aml yn cael eu gweld fel porthorion, mae'n bosibl nad yw'r rheiny ag anghenion cymhleth wedi cofrestru â meddyg a'u bod yn ei chael yn anodd iawn ymgysylltu â gwasanaethau. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai ymfudwyr a cheiswyr lloches wynebu rhwystrau ieithyddol sy'n eu hatal rhag ceisio unrhyw help sydd ar gael.

**Cwestiwn 8d**
**A r y cyd â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni 3-5 mlynedd. Yn eich barn chi, pa gamau fyddai modd eu cynnwys yn y cynllun i gyflawni yn erbyn yr amcanion?**

Nid oes gennym sylwadau gan fod yr is-amcanion yn ymddangos fel petaent yn cyfeirio'n bennaf at iechyd ar hyn o bryd.

## Amcan 6

**Cwestiwn 9**
**I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r amcan lefel uchel canlynol.**
Amcan 6: Dull cyfrifol o ran cyfathrebu, adroddiadau yn y cyfryngau, a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â hunan-niwed, hunanladdiad ac ymddygiad hunanladdol.

- Cytuno'n gryf ☒
- Cytuno ☐
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 9a**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 9?**

Rydym yn cydnabod y gall pob math o gyfrwng gael effaith, boed hynny'n gwneud lles neu'n gwneud drwg i'r rheiny sy'n ei ddefnyddio neu ei ddarllen. Oherwydd natur afreoledig y rhyngrwyd, mae pryder mawr ynghylch y wybodaeth fanwl am niweidio eich hun y gwyddom y mae pobl ifanc a phobl agored i niwed yn cael gafael arni. Gan hynny, rydym yn cefnogi'r amcan hwn yn llwyr o ystyried pwysigrwydd creu gwybodaeth hygyrch a ffeithiol am ymddygiadau hunanladdol a diogelwch, gan ddarparu cyfeiriadau a dewisiadau amgen na fyddai unigolion efallai'n ymwybodol ohonynt fel arall. Oherwydd natur cyfryngau cymdeithasol, gall unigolion, heb fawr o ymdrech, gael eu dylanwadu gan ddeunyddiau sydd â'r potensial i effeithio ar ymddygiadau neu gamau gweithredu na ystyriwyd yn flaenorol, ac o'r herwydd, gallai cael cyfathrebiadau cyfrifol wrth law helpu i atal hyn yn rhannol.

**Cwestiwn 9b**
**Awgrymwyd dau is-amcan i gyflawni amcan 6. Ydych chi'n cytuno â'r is-amcanion a nodwyd?**

- Cytuno'n gryf ☐
- Cytuno ☒
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐
- Anghytuno ☐
- Anghytuno'n gryf ☐

**Cwestiwn 9c**
**Beth yw eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 9b?**

Er ein bod yn cytuno â'r ddau is-amcan fel y maent wedi'u rhestru, ni chredwn y byddant yn gallu cyflawni'r amcan lefel uchel yn enwedig mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol, lle nad yw'r iaith na'r negeseuon yn cael eu rheoli gan bolisi llywodraeth ond yn hytrach gan unigolion - gyda rhai o'r rheiny'n postio am resymau ysgeler.

**Cwestiwn 9d**
**Ar y cyd â'r strategaeth, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni 3-5 mlynedd. Yn eich barn chi, pa gamau fyddai modd eu cynnwys yn y cynllun i gyflawni yn erbyn yr amcanion?**

| |
|---|
| Dim awgrymiadau ar hyn o bryd. |

## Y strategaeth yn gyffredinol

**Cwestiwn 10**
**Mae hon yn strategaeth ar gyfer pob oedran. Pryd bynnag y byddwn yn cyfeirio at ein poblogaeth, rydym yn cynnwys babanod, plant, pobl ifanc, oedolion ac oedolion hŷn. Ydych chi'n meddwl bod y stratagaeth yn nodi'n ddigon clir sut y mae'n darparu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran?**

- Ydy ☐
- Nac Ydy ☒

**Cwestiwn 10a**
**Os gwnaethoch chi ateb "nac ydy", esboniwch pam.**

Roeddem yn teimlo mai ychydig iawn o sôn oedd am oedolion hŷn oni bai am eu cynnwys yn y grwpiau a nodwyd mewn perthynas â 'phobl â phroblemau yn ymwneud â henaint'. Efallai y bydd cyfle i gysylltu'r strategaeth â chymunedau sy'n gyfeillgar i oed.

Yn ein hymateb rydym wedi crybwyll yn benodol plant a phobl ifanc a lleoliadau addysg, ond ychydig iawn o sôn am hyn sydd yn y strategaeth ei hun. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwahaniaethau rhwng hunanladdiad a hunan-niweidio.

Mae'n bwysig i ni godi yma bod ein haelodau hefyd wedi nodi bod angen cynnwys mwy o gefnogaeth a chapasiti yn ystod y cyfnod pontio o wasanaethau ieuenctid i oedolion / neu tuag at derfynu cefnogaeth yn 18 oed.

**Cwestiwn 11**
**Rydym wedi paratoi asesiadau effaith i esbonio ein syniadau am effeithiau'r strategaeth. Mae hyn yn cynnwys ein hymchwil ar yr effeithiau posibl. Oes unrhyw effaith, cadarnhaol neu negyddol, nad ydym wedi'i chynnwys?**

Teimlwn fod bwlch o ran nodi'r effaith a'r angen i gefnogi gweithwyr proffesiynol sydd o bosibl yn gorfod ymdrin â digwyddiadau trawmatig neu ddamweiniau a fu bron â digwydd o ran hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'n bwysig bod y gweithlu yn cael ei gefnogi'n llwyr i liniaru straen ac effeithiau negyddol ar eu hiechyd meddwl eu hunain, yn enwedig pan fo gan y gwasanaethau y maent yn atgyfeirio iddynt restrau aros a phroblemau capasiti eu hunain.

**Cwestiwn 12**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y gallai'r strategaeth eu cael ar yr iaith Gymraeg. Oes unrhyw beth y gallem ei newid i roi mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Neu, allwn ni wneud mwy i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Mae'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn un o'r is-amcanion ac felly credwn fod yr elfen hon o gydraddoldeb yn cael ei chwmpasu.

**Cwestiwn 13**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion na ydym wedi ymdrin â nhw, nodwch nhw yma**

Hoffai Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ddiolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth hon.

Mae'r eirfa yn ddefnyddiol ond mae adborth gan ein haelodau yn awgrymu bod angen gwahaniaethu'n fwy clir rhwng hunan-niweidio a hunanladdiad, gan ei fod yn ceisio cynnwys ymgais ar hunanladdiad ochr yn ochr â hunan-niweidio. Byddem hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad yw popeth sy'n cael ei amlyncu yn wenwyn (er enghraifft, gorfwyta fel ffurf o hunan-niweidio). Sylwn nad yw'r eirfa yn cynnwys anhwylderau bwyta a allai fod yn debyg o ran natur i hunan-niweidio.

Ni all yr ymateb i hunan-niweidio a hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad i gyd fod yn gysylltiedig ag iechyd, gan mai anaml y mae iechyd yn rheswm ond yn hytrach effeithiau cymdeithasol ehangach nad yw'n ymddangos bod y strategaeth hon yn eu cydnabod yn llawn nac yn ceisio torri'r cylchedau i atal y rhain rhag digwydd.

Gall stigma fod yn uwch mewn rhai cymunedau a grwpiau cymunedol nag eraill, sy'n debygol o fynnu ymatebion sy'n briodol i ddiwylliannau nad ydynt yn gyfyngedig i iaith a dewis o eiriau.

Mae'r ymateb hwn ar ran ein holl aelodau, sy'n cynnwys 22 Cyngor, 4 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, 4 Heddlu, 3 Gwasanaeth Tân ac Achub, y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Trydydd Sector, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.